

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Croeso i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor

Nod y diweddariad hwn am weithgareddau diweddar y Pwyllgor a rhai'r dyfodol yw ehangu ymgysylltiad â gwaith y Pwyllgor. Cafodd ei lunio gan y tîm clericio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

Mae cyfrif twitter y Pwyllgor, sef [@seneddiechyd](#) yn cynnwys ein newyddion diweddaraf, a manylion ymchwiliadau a chyfarfodydd.

Gwaith a wnaed yn ystod haf 2017

Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal

Rydym yn cynnal ymchwiliad byr i'r **defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal**.

Cynhaliwyd ymgynghoriad trwy'r gwanwyn a **chyhoeddwyd yr ymatebion** ym mis Mai.

Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth yn nhymor yr hydref, gan gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn y Senedd.

Unigrwydd ac unigedd

Cynhaliwyd 11 o sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid y tymor diwethaf ar **ein hymchwiliad i unigrwydd ac unigedd**.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth i gasglu **ymatebion gan randdeiliaid** cyn casglu'r dystiolaeth lafar.

Rydym wrthi'n llunio ein casgliadau a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad y tymor hwn.

Gofal sylfaenol

Rydym wedi bod yn casglu tystiolaeth ar gyfer **ein hymchwiliad i ofal sylfaenol** ers tymor y gwanwyn.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon fel y gallai'r Aelodau edrych ar wahanol fodolau clwstwr gofal sylfaenol a sut maent yn gweithio.



Cynhaliwyd ymgynghoriad y gaeaf diwethaf a derbyniwyd **47 o ymatebion** gan randdeiliaid.

Cafwyd tystiolaeth lafar trwy gydol tymor yr haf, yn gynnwys gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

Rydym wrthi'n llunio ein casgliadau a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn gynnar yn ystod tymor y gwanwyn.

Recriwtio meddygol

Lansiwyd ein hadroddiad ar recriwtio meddygol ym mis Mehefin.

Daeth yr aelodau a rhanddeiliaid i'r lansiad yn y Pierhead ar 29 Mehefin. Siaradodd aelodau'r Pwyllgor am yr argymhellion yn yr adroddiad, rhannodd meddyg dan hyfforddiant ei phrofiad o roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, a rhannodd Deoniaid Ysgolion Meddygol Cymru eu barn.




Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Trosglwyddwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2016.

Craffwyd ar y Bil yn y Pwyllgor yng nghyfnod 1 a 2, a chraffwyd ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn yng nghyfnod 3. Cytunodd y Cynulliad ar y Bil ar 16 Mai 2017.

Rhodddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil ar 3 Gorffennaf 2017.



Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Gwahoddwyd aelodau o Banel yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i Gyfarfod y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf i siarad am ganfyddiadau eu hadroddiad interim.

Gweithgareddau'r Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2017

Er gwybodaeth, gall y wybodaeth am ddyddiadau a phynciau ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau newydd godi.

- Tystiolaeth lafar ar ein hymchwiliad i'r defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal;
- Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19
- Adrodd ar ein hymchwiliad i ofal sylfaenol.
- Unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cael ei throsglwyddo i'n Pwyllgor.

Mae gwybodaeth wedi'i diweddararu ar gael yma: <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=448>

-

Cylch gwaith

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 28 Mehefin 2017 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):
iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Aelodau'r Pwyllgor



Dai Lloyd AM
Plaid Cymru
(Chair)



Dawn Bowden AM
Welsh Labour



Jayne Bryant AM
Welsh Labour



Angela Burns AM
Welsh
Conservatives



Rhun ap Iorwerth AM
Plaid Cymru



Caroline Jones AM
UKIP Wales



Julie Morgan AM
Welsh Labour



Lynne Neagle AM
Welsh Labour